Prifysgol Cymru
University of Wales

ORDINANT 28: GRADDEDIGION PRIFYSGOL CYMRU (ORDINANT 22 YN FLAENOROL)
Mabwysiadwyd mis Mawrth 2014

1. Yn amodol ar ddarpariaeth y SIARTER a'r STATUDAU ceir corff o holl Raddedigion y Brifysgol – a elwir yn Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, neu unrhyw deitl arall y bydd Cyngor y Brifysgol yn cytuno arno o bryd i'w gilydd.

2. Nodau'r corff fydd:

    a. meithrin cyswllt clos rhwng y Brifysgol a'i graddedigion a darparu canolbwynt i'w holl raddedigion allu cyfathrebu â'i gilydd ac â chyrff eraill;
    b. darparu gwasanaethau i'w aelodau fydd yn ategu ac yn ychwanegol i'r rhai a ddarperir gan y sefydliadu lle'r astudiodd y myfyrwyr am eu graddau;
    c. ceisio darparu cyfle ar gyfer cydweithredu a chydweithio rhwng cyrff cyn-fyfyrwyr yn y sefydliadau a hyrwyddo pob sefydliad yn fyd-eang;
    d. darparu gwasanaethau a buddiannau i'r graddedigion rhyngwladol.

3. Bydd y Brifysgol yn darparu cyfleusterau ar gyfer gweithredu Swyddfa Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru i gynorthwyo â chyflawni nodau corff y graddedigion (gyda phwyslais penodol ar nod 2(a) uchod).

4. Bydd y Brifysgol yn sefydlu Fforwm Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru (Fforwm Cyn-fyfyrwyr PC) i gynrychioli buddiannau Graddedigion y Brifysgol a chynorthwyo gwaith Swyddfa Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru.

5. Bydd Fforwm Cyn-fyfyrwyr PC yn cynnwys digon o gyfranogwyr neu aelodau (heb fod yn llai nag un ar ddeg) o blith corff ehangach o Raddedigion, i ddarparu cydraddoldeb cyfle rhesymol, cydbwysedd rhywiau, mewnbwn ffres ac ystod gytbwys o oed a disgyblaethau astudio. Dylid adolygu'r aelodaeth yn flynyddol i sicrhau bod aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau ac yn ymgysylltu â'r Brifysgol.

6. Bydd Fforwm Cyn-fyfyrwyr PC yn gweithredu er budd gorau Graddedigion y Brifysgol yn gyffredinol.

7. O ystyried natur ryngwladol eang ei aelodaeth, bydd Fforwm Cyn-fyfyrwyr PC yn cynnal ei fusnes drwy gyfathrebu electronig a bydd yn gweithredu fel fforwm 'rhithiol'.

8. Caiff aelodau o Fforwm Cyn-fyfyrwyr PC gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater yn ymwneud â buddiannau'r Brifysgol a'i Graddedigion. Dylid cyflwyno sylwadau i Swyddfa'r Cyn-fyfyrwyr, ond gellid (fel bo angen) eu cyflwyno i'r Is-Ganghellor ac yna i Gyngor y Brifysgol a/neu i'r Bwrdd Academaidd.